Office for Product
Safety & Standards



# Os ydych chi'n meddwl bod eich plentyn wedi llyncu magnet

## Ewch â nhw'n syth i'r Adran Frys agosaf neu ffoniwch 999 am ambiwlans.

Os bydd plentyn yn llyncu magnetau, maen nhw'n gallu cael eu gorfodi at ei gilydd yn y coluddion neu'r perfeddion, gan wasgu'r feinwe fel bod y cyflenwad gwaed yn cael ei atal. Gall llyncu magnetau achosi difrod mewnol arwyddocaol o fewn oriau a bod yn fygythiol i fywyd.

**Efallai na fydd y symptomau'n amlwg.**

## Efallai y bydd eich plentyn:

- yn dioddef poen yn y stumog
- yn chwydu
- â thwymyn
- yn pwyntio at y llwnc neu'r stumog

2021